

SEICOLEG

Amser - 1.5 awr

Cyfarwyddiadau i Fyfyrrwyr:

ADRAN A (40%): Rhaid i chi ateb pob un o'r PEDWAR (4) cwestiwn

ADRAN B (60%): Rhaid i chi ateb UN (1) cwestiwn o ddewis o chwech

ADRAN A (40%)

Darllenwch y braslun ymchwil canlynol, ac ateb pob un o'r PEDWAR (4) cwestiwn isod.

Mae ymchwilydd am archwilio i weld p'un o ddau ddull o ddysgu am ystadegau a dulliau ymchwil sydd orau gan fyfyrwyr prifysgol. Mae'r dull dysgu cyntaf yn gyfuniad o ddarlithoedd a dosbarthiadau ymarferol mewn grwpiau bychain, a arweinir gan ddarlithydd sy'n brofiadol mewn dulliau ymchwil ac ystadegau. Mae'r ail ddull yn golygu gweithio'n annibynnol drwy wneud cwrs ar-lein a gynlluniwyd yn arbennig, lle y gallent reoli eu dysgu eu hunain a mynd yn ôl eu cyflymder eu hunain, ond heb gael cymorth gan ddarlithwyr, heblaw'r hyn a roddir ar-lein ar ffurfiau testun a fideo. I wneud hyn, mae'r ymchwilydd yn rhoi holiadur i 1000 o fyfyrwyr yn eu blwyddyn gyntaf yn y brifysgol, sydd newydd ddechrau ar eu cyrsiau gradd, i ofyn ynghylch yr hyn sydd orau ganddynt.

1. Soniwch am unrhyw broblemau ynglŷn â'r dull o gasglu data a ddefnyddir yma.
2. Sut y gellid gwella'r cynllun?
3. Rhowch un agwedd gadarnhaol ar y cynllun a ddefnyddiwyd.
4. Beth yw'r ystyriaethau moesegol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn?

ADRAN B (60%)

Atebwch UN (1) cwestiwn o blith y dewis o chwech isod.

1. Yn eich barn chi, sut y gallai Seicoleg ein helpu i ymdrin â materion iechyd meddwl yn ein cymdeithas?
2. Wrth wneud ymchwil sy'n cynnwys poblogaethau a allai fod yn agored i niwed, megis plant a/neu bobl ag anableddau, ceir ystyriaethau moesegol ychwanegol y mae'n rhaid ymdrin â nhw. Maent yn ymwneud â sicrhau bod y cyfranogwyr yn gallu rhoi 'cydsyniad ar sail gwybodaeth' i gymryd rhan yn y prosiect ymchwil. Sut y byddech yn mynd ati i'w gael pe baech yn cynnal ymchwil gyda grŵp o blant rhwng 3 a 6 oed, mewn meithrinfa/ysgol?
3. Mae arolygon wedi dangos bod y rhan fwyaf o bobl, i ryw raddau, yn anfodlon â'u corff eu hunain. Mae anfodlonrwydd â'r corff wedi'i gysylltu â sawl ymddygiad, emosiwn a gwybyddiaeth nad ydynt yn iach. Mae deall y rhesymau pam mae cymaint o anfodlonrwydd â'r corff, a deall y canlyniadau, yn gallu helpu seicolegwyr i ddod o hyd i dulliau o helpu pobl i dderbyn eu corff a gwella eu lles. Rhowch resymau pam mae pobl yn anfodlon â'u corff eu hunain, y canlyniadau a allai ddeillio o hynny, a strategaethau y gallai seicolegwyr eu defnyddio i helpu unigolion.
4. Fel aelodau o'r ddynoliaeth, rydym oll yn wahanol yn gorfforol ac yn seicolegol. Yn eich barn chi, sut mae pob un ohonom yn wahanol yn seicolegol, a pham mae gennym y gwahaniaethau hyn?
5. Pan gewch chi syniad, a ydych yn cael y syniad yn gyntaf ac wedyn ei roi ar ffurf geiriau i'w gyfleu, ynteu ai tynnu ar gysyniadau a gyflëir yn eich diwylliant ydych chi yn gyntaf, er mwyn llunio'r syniad yn y lle cyntaf?
6. Yn hanesyddol, canolbwyntiodd ymchwil seicoleg ar agweddau negyddol a phroblemau roedd pobl yn eu hwynebu megis iselder, gorbryder, ffobiâu, ac yn y blaen. Yn y blynyddoedd diweddar, cafwyd mwyfwy o ymchwil i seicoleg gadarnhaol, yn edrych ar emosiynau cadarnhaol megis hapusrwydd, gwytnwch, empathi, cariad a doniolwch. Sut y gallai gwaith ymchwil i seicoleg gadarnhaol helpu pobl i deimlo'n well a byw'n well? Yn eich barn chi, pa ddatblygiadau yn ein dealltwriaeth y gellid eu cael drwy wneud gwaith ymchwil i seicoleg gadarnhaol ac emosiynau cadarnhaol?